LC299

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**DRAFT**

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd 1995 (Cychwyn a Darpariaeth Arbed Tir Halogedig) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cychwyn, ar 1 Gorffennaf 2001, rai o ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd 1995 sy'n ymwneud â thir halogedig. Mae'r Darpariaethau sy'n cael eu cychwyn yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Gwnaed gorchymyn cychwyn ac arbed i'r un perwyl â'r gorchymyn presennol mewn perthynas â Lloegr ar 2 Chwefror 2000, gan gychwyn darpariaethau perthnasol Deddf 1995 ar 1 Ebrill 2000.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

### Sylwadau Cyffredinol

Er y daethpwyd i'r casgliad nad oes cyfiawnhad dros adrodd yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.5, tynnir sylw at y materion canlynol.

### Y Nodyn Esboniadol

Yn ôl y Llawlyfr Offerynnau Statudol, pan fydd Deddf yn cael ei dwyn i rym gan fwy nag un gorchymyn cychwyn, dylai fod nodyn, ar ôl y Nodyn Esboniadol, yn yr ail orchymyn ac mewn gorchmynion dilynol, yn rhestru'r darpariaethau a gafodd eu dwyn i rym gan orchmynion cynharach. Serch hynny, pan fydd hynny'n anymarferol, er enghraifft pan fyddai rhestru nifer fawr o orchmynion cynharach yn arwain at oedi annerbyniol, â'r

Llawlyfr ymlaen i nodi y dylid trefnu bod rhestr o’r darpariaethau a gafodd eu dwyn i rym gan orchmynion cynharach ar gael i ymholwyr, a bod datganiad ynglŷn â hynny yn cael ei gynnwys ar ôl y Nodyn Esboniadol.  Pan fydd y gorchymyn yn dwyn y darpariaethau olaf sydd ar ôl yn y Ddeddf i rym, mae’r Llawlyfr yn nodi ymhellach y dylid dweud hynny yn y Nodyn Esboniadol.

**Y teitl**

Nid yw erthygl 1(1) yn y testun Saesneg yn darparu ar gyfer enwi’r Gorchymyn yn nhermau’r teitl sydd wedi’i nodi ar frig tudalennau 1 a 3.  Mae’r geiriau “Contaminated Land” wedi’u hepgor o Erthygl 1(1), a hynny mewn cyferbyniad â thestun Cymraeg Erthygl 1(1) sy’n cyd-fynd â’r teitl fel y mae’n ymddangos ar frig y Gorchymyn.  Gall hyn fod yn briodol i’w gywiro yn y Gorchymyn cyhoeddedig.

**Erthygl 1(3)**

Diangen yw hyn yn ôl pob golwg, gan fod cyfeiriadau penodol at Ddeddf 1995 yn dod o flaen pob cyfeiriad at adrannau â rhif ac Atodlenni yn y Ddeddf honno.

**J H TURNBULL**
Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf:  LAD 01-01-X

19 Mehefin 2001